| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 12 Rhagfyr 2024 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25 |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen ar gyfer 2024/25 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Gorffennaf 2024.

2. Roedd yr eitem 'Cyfundrefn Addysg Drochi' wedi ei raglennu i'w drafod yn y cyfarfod yma.

3. Derbyniwyd cais gan yr Adran Addysg i lithro'r eitem i gyfarfod 13 Chwefror 2025. Cynhelir gwerthusiad o'r gyfundrefn addysg drochi yn ystod y tymor ysgol hwn. Mae'r Adran Addysg yn cydweithio gydag Adran Addysg Prifysgol Bangor i gynnal y gwerthusiad. Rhagwelir y derbynnir adroddiad drafft o'r canfyddiadau ac unrhyw argymhellion yn y flwyddyn newydd.

4. Yn dilyn ymgynghori gyda'r Cadeirydd, cytunwyd i'r cais i lithro'r eitem er mwyn sicrhau bod yr eitem yn cael ei graffu'n amserol i alluogi craffu i ychwanegu gwerth.

5. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad, rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.

6. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2024/25.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2024/25

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **18/7/24** | • Adroddiad Blynyddol GwE | Eitem Blynyddol / Sicrwydd |
| | • Adolygiad Haen Ganol – Gwasanaeth Gwella Ysgolion | Mewnbwn i'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol |
| | • Trefniadau Diogelu mewn ysgolion | Sicrwydd o ran y trefniadau |
| | • Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus |
| | | |
| **17/10/24** | • Adroddiad cynnydd ar ymateb i argymhellion Estyn | Adroddiad Archwiliwr Allanol |
| | • Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory |
| | • Strategaeth Llesiant Staff | Craffu cefnogaeth llesiant staff |
| | | |
| **12/12/24** | • Cyllidebau Refeniw Ysgolion | Effaith ar ysgolion Gwynedd |
| | • Cludiant Addysg | Gorwariant yn y maes |
| | | |
| **13/2/25** | • Cynllun Economi Gwynedd | Cynllun Strategol |
| | • Polisi Iaith Addysg | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg |
| | • Cyfundrefn Addysg Drochi | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg |
| | | |
| **10/4/25** | • Gwasanaeth Ieuenctid | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory |
| | • Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif ac Ysgolion Arbennig | Craffu'r ddarpariaeth addysg anghenion dysgu ychwanegol |

**Eitem wrth gefn** - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru